Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DL 221

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Cwmni argraffu ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2020-2021

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Llywodraethu / Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i weithgaredd yn erbyn ei flaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu swyddogaethau statudol. Ysgrifennwyd adroddiad 2020-2021 gan staff yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh), a ddyluniwyd gan gwmni allanol, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein ar wefan y CHTh.
Mae'r SCHTh wedi cysylltu â'r cwmni argraffu lleol Gomer Press, sydd eisoes wedi gwneud gwaith argraffu ar gyfer y CHTh - gan gynnwys Adroddiad Blynyddol 2019-2020 – i ofyn am ddyfynbris ar gyfer argraffu nifer fach o gopïau o Adroddiad Blynyddol 2020-2021. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mynediad ehangach i'r Adroddiad, gan na fydd gan bob preswylydd fynediad i'n fersiwn ar-lein.
Yn unol â 'Gwybodaeth a Chanllawiau Caffael Heddlu Dyfed-Powys: Gweithdrefnau Caffael – Lefel Gwariant', cadarnheir nad yw'r lefel gwariant sy'n gysylltiedig gyda'r darn hwn o waith yn cyrraedd y trothwy sy'n galw am gasglu dyfynbrisiau gan sefydliadau.
Felly, dim ond un dyfynbris sydd ei angen, sydd eisoes wedi ei gael gan cwmni argraffu lleol, Gomer Press, ac a ystyrir yn deg ac yn gost effeithlon ar gyfer y darn hwn o waith.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r cwmni argraffu lleol, Gomer Press, argraffu 100 copi o Adroddiad Blynyddol Cymraeg a 100 copi o Adroddiad Blynyddol Saesneg, ar gost o £555.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad:** 14/07/2021